


Cyfeillion Murluniau Brenda Chamberlain ar Enlli
The Friends of the Brenda Chamberlain Bardsey Murals


**Cylchlythyr VII Chwefror 2021**

“Mae'n foment hyfryd o ddarganfyddiad” medd Tom Sutcliffe wrth Huw Stephens ar raglen Radio 4 *Front Row*, wrth drafod ymweliad Huw ag Enlli i weld murluniau Brenda Chamberlain. Mae Huw wedi bod yn teithio o gwmpas Cymru yn ffilmio ar gyfer *The Story of Welsh Art*, cyfres o dair rhaglen awr o hyd sy'n cychwyn ar BBC 4 ar Fawrth 1af. Yn sydyn bydd ein murluniau yn cael eu gweld gan gynulleidfa anferthol. Mae'r clip o *Front Row* i'w gael yma: https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m000sgsx .
Mae sôn am Brenda Chamberlain yn y funud gyntaf ac yn ddiweddarach mewn cyfweliad 10 munud.


Huw Stephens yn Henllwyn © Steve Freer

Y tro dwytha bu Jane Foley ac Inez Litasova, ein harbenigwyr cadwraeth, draw yn gweithio ar y murluniau oedd ym mis Awst 2018. Wedi hynny, buont draw yn yr Unol Daleithiau yn Chicago yn helpu gyda gwaith cadwraeth ar ddarnau o gwch - U Boat - lansiwyd yn 1935 - sef y lloriau teils a'r lino gwreiddiol yn yr ystafell dorpidos yng nghefn y cwch! Roeddynt yn gobeithio mynd i Enlli eto ar ddiwedd y tymor yn 2019.

Yn anffodus nid felly y bu. Cafodd Jane ddamwain car - "Roedd y ddynes oedd yn gyrru'r car arall yn gwneud ei gwallt ar y pryd, cyflymodd ei char a chroesi'r ffordd at fy ochr i," meddai, "'doedd dim dianc". Yn ôl arbenigwr Jane, roedd padell ei phenglîn wedi ei falu'n rhacs run fath â bar 'Crunchie'. Ei gobaith wedyn oedd y byddai'n medru croesi i Enlli yn y gwanwyn - ac wrth gwrs, gwyddom fod bywyd a chynlluniau pawb wedi newid y gwanwyn dwytha'. Mae'n dal i obeithio cael mynd eleni.




Ar y penwythnos olaf cyn y cyfnod clo, lansiwyd y fersiwn clawr meddal o *Brenda Chamberlain: Artist & Writer*, cofiant Jill Piercy a gyhoeddwyd gyntaf yn 2012, yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Yno ar yr un pryd, cynhaliwyd darlleniad o *Trusting Unicorns*, drama Lucy Gough a ysbrydolwyd gan Brenda Chamberlain. Mae gwaith Brenda felly yn dal i fynnu sylw.

Ar gyfer y Nadolig 2018, rhoddodd Siân Stacey (oedd yn Rheolwr yr Ynys ar y pryd, yn awr yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Ynys Enlli) ganiatâd inni ddefnyddio'i llun o dŵr yr Abaty wedi cawod cymharol drom o eira - anarferol i Enlli - ar gyfer cardiau Nadolig. Gwerthwyd y rhain yn y sgyrsiau byddaf yn eu rhoi o dro i dro yn ogystal â chardiau gyda delweddau o Carreg a Plas - y lluniau hynny wedi eu cymryd o'r baneri a wnaethpwyd o dan oruchwyliaeth Carole Sherman gan deuluoedd ar eu gwyliau ar Enlli. 'Does dim sgyrsiau ar hyn o bryd wrth gwrs. Edrychwn ymlaen at y diwrnod y byddant yn ail-ddechrau.





Ceridwen Lloyd-Morgan, Peter Lockyer, Peter Lord, Luned Meredith, Jill Piercy. peter.lockyer81@gmail.com